

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Panteg

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol Panteg yn gymuned deuluol, gynhwysol a chartrefol lle mae gwerthoedd ‘Pedwar Panteg’ i ymrwymo i fod yn garedig, yn deuluol cyd-gefnogol, yn angerddol ac uchelgeisiol yn amlwg yng ngweithgarwch yr ysgol. Mae’r staff yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi a pharch yn llwyddiannus. Mae ymdeimlad ac ethos gofalgar tuag at bob disgybl. Mae’r staff yn creu amgylchedd dysgu eithriadol o gynnes a diogel lle mae’r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Ers ei benodiad, mae’r pennaeth wedi sefydlu prosesau trylwyr ar draws yr ysgol i sicrhau cysondeb yn yr addysgu a dysgu sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau'r disgyblion. Mae systemau manwl ar waith i olrhain cynnydd addysgol a lles pob disgybl ac mae’r staff yn darparu amrediad eang o gefnogaeth fwriadus er mwyn diwallu anghenion y disgyblion.

Ar draws yr ysgol, mae’r disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn gadarn. Maent yn gwrando’n  astud ar oedolion a chyfoedion ac yn trafod eu gwaith yn hyderus gan ddefnyddio ymadroddion Cymraeg yn deillio o gynllun manwl gramadeg yr ysgol. Er hynny, nid ydynt bob tro’n cael cyfleoedd digon bwriadus er mwyn ymestyn eu medrau hyd eithaf eu gallu.

Mae’r staff yn cydweithio’n  hynod o effeithiol er mwyn diwallu anghenion y disgyblion. Maent yn fodelau iaith da ac yn annog y disgyblion i fod yn falch o’u Cymreictod. Fodd bynnag, ar adegau, mae staff yn gorarwain y dysgu, sydd yn llesteirio gallu'r disgyblion i ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Agwedd nodedig o waith yr ysgol yw’r modd mae arweinwyr yn cyfathrebu’n effeithiol gyda rhieni a gofalwyr i sicrhau ymglymiad yr holl gymuned yn addysg y disgyblion. Yn ogystal, mae arweinwyr yn angerddol am ddatblygiad proffesiynol staff ac yn sicrhau cyfleoedd bwriadus iddynt hyfforddi ymhellach.

# Argymhellion

**A1** **Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu a datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol**

**A2** **Sicrhau lefel briodol o her i gefnogi'r disgyblion i ymestyn eu medrau hyd eithaf eu gallu**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Panteg |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 408 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 310 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 47 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 23.0%) | 27.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 16.1%) | 18.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 2.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 31/05/2021 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 25/09/2023 |
| Mae'r ysgol yn ysgol arweiniol ar gyfer addysg gychwynnol athrawon. | |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/11/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.